**Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth**

Cofnodion
Dydd Iau 28 Medi 2023, 3.30-5pm
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd / Microsoft Teams

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS (cadeirydd), Chris Haines (ysgrifennydd), Kyle Jamie Eldridge, Wendy Thomas, Donna Sharland, Shaun Bendle, Bill Fawcett, Daniel McNalty, Keith Ingram, Rachel Hazlewood, Ruth Rabet, Samantha Williams, Dr Sarah Broadhurst, Alexander Still, Yasmin Zahra, Ben Scott, Catrin Jones, Megan Thomas, Enya Morgan-Beattie, Victoria Morgan-Beattie, Elaine Jennings

**Ymddiheuriadau:** Claire Morgan, Sian Owen, Michal Blochowaik, Justice Hunt, Bill Powell, Clare-Anna Mitchell

1. **Croeso a chyflwyniadau**

   Croesawodd Mark Isherwood AS bawb i'r cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol Awtistiaeth gan gyflwyno'r siaradwyr.

2. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

   Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Ebrill ym Mhrifysgol Bangor ar ôl iddynt gael eu cynnig a'u heilio fel adlewyrchiad cywir.

3. **Awtistiaeth a gwleidyddiaeth**

   Siaradodd Kyle Jamie Eldridge am ei brofiadau ers cael ei ethol i Gyngor Tref y Fenni yn 25 oed. Cyfeiriodd at y cryfderau y gall pobl awtistig eu dwyn i swyddi cyhoeddus, y rhwystrau a wynebant yn ogystal â phwysigrwydd cynyddu eu cynrychiolaeth a'u cyfranogaeth.

   Rhestrodd yr aelodau ymdeimlad llym o beth sy'n iawn a beth sydd ddim, gonestrwydd ac uniondeb, meddwl y tu allan i'r bocs, sgiliau datrys problemau anghyffredin a safbwynt gwahanol fel rhai o'r holl gryfderau y gall pobl awtistig eu cynnig.

4. **Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol**

Cyflwynodd MI Wendy Thomas, Pennaeth Gwasanaeth Niwrowahaniaeth Cymru, a Donna Sharland, Rheolwr Prosiect Trawsnewid, gan ddiolch iddynt am gamu i mewn ar fyr rybudd yn dilyn newid munud olaf yn yr agenda. Rhoddodd WH ddiweddariad ar waith y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, gan egluro bod cylch gorchwyl ei thîm wedi cael ei ehangu i gynnwys cyflyrau niwroddatblygiadol eraill, megis ADHD a syndrom Tourette. Sicrhaodd y bobl oedd yn bresennol fod y tîm a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn dal i gynnwys awtistiaeth a bod pethau'n mynd rhagddynt fel arfer. Dywedodd WT wrth y cyfarfod fod ffocws allweddol y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn helpu i gyflawni'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth.

Dywedodd WT fod dau fodiwl e-ddysgu – ar ddeall awtistiaeth a chyfathrebu effeithiol – wedi cael eu rhoi ar waith. Dywedodd fod yr hyfforddiant wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd â phobl awtistig a'i rannu gan grŵp cynghori. Tynnodd WT sylw hefyd at sesiynau cymunedau ymarfer, sydd â'r nod o uwchsgilio gweithwyr proffesiynol, y mae'r tîm wedi'u cynhyrchu ac maent ar gael yn awtistiaethcymru. Amlinellodd DS waith y grŵp am ADHD gan gynnwys ymarferiad cwmpasu i bwyso a mesur debyg i beth yw da. I gloi, anogodd WT unrhyw un a fyddai'n hoffi ymuno â gwaith y tîm i gysylltu.

5. **Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal**

Rhoddodd Shaun Bendle, Swyddog Prosiect yn Anabledd Cymru, drosolwg ar y Prosiect Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal. Esboniodd mai nod y rhaglen fentora yw cael mwy o bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, menywod, pobl LHDTC+ a phobl anabl i swyddi lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yng Nghymru. Dywedodd SB wrth y cyfarfod fod EPEV yn bartneriaeth rhwng Anabledd Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Stonewall Cymru a'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid.

Nod y rhaglen yw cynyddu amrywiaeth y gynrychiolaeth mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru drwy gysylltu'r rhai sydd â phrofiad gyda phobl awyddus. Cododd bryderon am y diffyg aelodau anabl, lleiafrifoedd ethnig a thraws neu anneuaidd agored yn y Senedd dros yr 20 mlynedd diwethaf. Tynnodd SB sylw at rai o lwyddiannau'r rhaglen, gan gynnwys yr etholiadau lleol yn 2020 pan gafodd chwech o gynghorwyr sir neu gynghorwyr cymuned eu hethol. Dywedodd fod mentoreion hefyd wedi mynd ymlaen i ysgwyddo rolau fel ymddiriedolwyr byrddau, dechrau eu grwpiau cymunedol neu'u grwpiau busnes eu hunain neu wedi dod yn llywodraethwyr ysgol. Esboniodd SB nad yw'r grŵp yn recriwtio ar hyn o bryd ond y gall pobl gofrestru ar y rhestr bostio i gael diweddariadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dywedodd MI ei fod wedi bod yn fentor ar y prosiect EPEV ers iddo ddechrau, gan ychwanegu bod cyfranogwyr gydag amrywiol nodweddion gwarchodedig gwahanol wedi elwa o'r rhaglen.

6. **Unrhyw fater arall a sylwadau cloi**

Hysbysodd MI y cyfarfod fod Chris Haines yn sefyll i lawr fel ysgrifennydd y grŵp pan mae’n gadael ei rôl gyda Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru. Dywedodd fod yr elusen yn gobeithio penodi ei olynydd yn y misoedd nesaf, gyda’r nod o gynnal cyfarfod nesaf y grŵp yn gynnar yn y flwyddyn newydd.